| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | **Y CYNGOR** |
| **DYDDIAD** | **13, MAI, 2010** |
| **PWNC** | **PENODI AELODAU WRTH GEFN AR GYFER PWYLLGORAU** |
| **PWRPAS** | **ADRODD AR ARGYMHELLION YPRIF BWYLLGOR CRAFFU YN DILYN RHYBUDD O GYNNIG I'R CYNGOR.** |
| **AWDUR** | **DILYS PHILLIPS, PENNAETH DEMOCRATIAETH A CHYFREITHIOL.** |
| **DEILYDD PORTFFOLIO:** | **CYNGHORYDD J. R. JONES, UWCH ARWEINYDD ADNODDAU.** |

1. Yn ei gyfarfod ar y 21ain o Ionawr 2010 mewn ymateb i rybudd o gynnig gan y Cynghorydd Owain Williams, penderfynodd y Cyngor gyfeirio'r mater i'r Prif Bwyllgor Craffu:

   *"**PENDERFYNWYD:** cefnogi ysbryd y cynnig gwreiddiol, sef bod eilydd yn cymryd lle aelod sefydlog sydd methu mynychu pwyllgor oherwydd amgylchiadau arbennig, a chyfeirio'r mater i'r Prif Bwyllgor Craffu ystyried opsiynau posibl ar gyfer gweithredu trefn addas."*

2. Cyfarfu'r Prif Bwyllgor Craffu ar y 23, Ebrill, 2010 i drafod y mater a phenderfynodd argymell i'r Cyngor dderbyn y rheol weithdrefn yn yr atodiad, fel modd o weithredu'r drefn.

3. Nodir isod brif nodweddion y drefn newydd o gael aelodau wrth gefn.

4. Ni fydd y drefn yn berthnasol i bwyllgorau ardal na'r Bwrdd, nac ychwaith y Pwyllgor Pensiynau, Pwyllgor Trwyddedu na'r Cyd-bwyllgor Lleol i Staff, naill a'i oherwydd ymarferoldeb neu arbenigedd. Ni ellir chwaith gael aelodau wrth gefn ar y Pwyllgor Safonau, oherwydd ei gyfansoddiad statudol.

5. Y drefn ar gyfer eilyddio fydd i pob grŵp benodi un aelod wrth gefn ar gyfer pob pwyllgor y mae ganddynt aelodaeth ohono, a'r aelodau wrth gefn rheini fydd yr unig rai gaiff eilyddio. Byddant yn derbyn gwybodaeth berthnasol (cyn belled nad yw hynny yn arwain at gost ychwanegol i'r Cyngor).

6. Bydd yr aelod wrth gefn yn cael mynychu pwyllgor yn lle'r aelod sefydlog cyn belled a bod rhybudd wedi ei roi ymlaen llaw i'r Cadeirydd. Bydd y cyfrifoldeb o drosglwyddo holl wybodaeth berthnasol (lleoliad, briffio, a.y.b.) i'r aelod wrth gefn yn disgyn ar yr aelod sy'n methu mynychu'r pwyllgor.

7. Bydd disgwyl i unrhyw aelod sy'n eilyddio fod yn eilyddio am y cyfarfod llawn (h.y. dim hanner pwyllgor gan eilydd a hanner gan yr aelod sefydlog).

8. Penderfynodd yr Prif Bwyllgor Craffu y dylid adolygu'r drefn ymhen 12 mis.

**ARGYMHELLIAD.**

9. Gofynnir i'r Cyngor gymeradwyo argymhellion y Prif Bwyllgor Craffu a mabwysiadu'r rheol weithdrefn sydd yn yr Atodiad.

ATODIAD.

**RHEOL WEITHDREFN ENGHREIFFTIOL**

**PENODI EILYDDION I BWYLLGORAU AC IS-BWYLLGORAU**

1. Heb ragfarn i ofynion y Cyfansoddiad na'r gyfraith yn ychwanegol at benodi Pwyllgorau ac Is Bwyllgorau gall y Cyngor benodi aelodau yn eilyddion iddynt. Ni chaniateir penodi eilyddion ar gyfer y Bwrdd na Phwyllgorau Ardal, y Pwyllgor Pensiynau, Pwyllgor Trwyddedu, Pwyllgor Safonau na'r Cydbwyllgor Lleol Staff.

2. Ar gyfer pob Pwyllgor ac Is Bwyllgor perthnasol gall y Cyngor benodi un aelod o bob Grŵp Gwleidyddol a gynrychiolir arnynt i weithredu fel eilydd.

3. Bydd gan yr eilydd hawl i siarad a phleidleisio yn unig yn y cyfarfod perthnasol o'r Pwyllgor neu Is Bwyllgor ac ni fydd unrhyw swyddogaethau na phenodiadau eraill gan gynnwys penodiadau i Weithgorau o'r Pwyllgor neu Is Bwyllgor yn perthyn i'r aelod tra'n gweithredu fel eilydd.

4. Ni all yr aelod sefydlog fynychu y cyfarfod os yw wedi ei eilyddio.

5. Gall aelodau sydd yn eilyddio ond mynychu cyfarfod:

   (i) i gymeryd lle aelod sefydlog o'r Pwyllgor neu Is Bwyllgor;
   (ii) ble na all yr aelod sefydlog fod yn bresennol am yr oll o'r cyfarfod ac
   (iii) os yw'r aelod sefydlog wedi hysbysu'r Cadeirydd ymlaen llaw o'r bwriad i eilyddio.